Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

**WRA-FOI-0062 – gwybodaeth y gofynnwyd amdani – Atodiad 2**

1. Allwch chi ddweud wrthyf faint o dreth gwarediadau tirlenwi a gesglir yn flynyddol o safle tirlenwi Withyhedge ar gyfer bob blwyddyn o 2019 hyd at 2024.

   **Ymateb:**

   Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn ymateb i'r cwestiwn uchod, ynglŷn â'r dreth gwarediadau tirlenwi a gasglwyd, yn esempt o'r gofynion datgeluu o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan ei bod eisoes ar gael i chi yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon, a'n cyhoeddiad Ystadegau ac ymchwil sydd ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan yn
   Adroddiadau a chyfrifon blynyddol Awdurdod Cyllid Cymru | LLYW.CYMRU ac Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU.

2. Allwch chi ddweud wrthyf faint o'r swm blynyddol o dreth gwarediadau tirlenwi a delir i Awdurdod Cyllid Cymru sy'n cael ei reoli gan y Senedd ar gyfer bob blwyddyn ers 2019 hyd at 2024.

   **Ymateb:**

   Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon. Mae ein holl Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei thalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Pan fydd refeniw treth yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, mae'n dod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac nid oes gennym unrhyw gysylltiad pellach ag ef.